



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Penodi Cadeirydd, Pwyllgor Cymru

Dyddiad Cau: 16:00 ar 14 Mehefin 2019



Rheoleiddiwyd gan y
Comisiynydd Penodiadau
Cyhoeddus

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Cynnwys

Gwneud cais

Atodiad A: Rôl y Cadeirydd / Aelod

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Atodiad C: Y broses ddethol

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Gwneud cais

Diolch am fynegi diddordeb yn swydd Cadeirydd Cymru y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Bydd Cadeirydd Cymru yn aelod o Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac yn darparu persbectif Cymru i waith y Cyngor. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion rôl Cadeirydd Cymru a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn <https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-e230fd63b4a9/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/>.

I ymgeisio am y rôl, cliciwch ar swydd wag 'Cadeirydd, Pwyllgor Cymru – y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro cyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi llenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny, byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu gwneud, drwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd y ffurflen gais ar gael ichi ei llenwi. I wneud cais bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i'r adran 'Rhesymau dros ymgeisio' ar y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol

Eich datganiad personol yw'ch cyfle i ddangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf a nodir ym manyleb y person. Chi fydd yn penderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich rôl chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol pe baech yn nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae rhoi paragraffau ar wahân ar gyfer pob maen prawf yn arfer gyffredin.

Ni ddylai eich datganiad personol fod yn fwy na dwy dudalen. Gallai eich cais gael ei wrthod os byddwch yn rhagori ar y terfyn hwn.

CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu eich swydd ddiweddaraf a'ch dyddiadau yn y swydd hon. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	16:00 ar 14 Mehefin 2019
Llunio rhestr fer:	Wythnos yn cychwyn 24 Mehefin 2019
Cyfweliadau:	Wythnos yn cychwyn 29 Gorffennaf 2019

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Datganiad am Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i ymgeisio am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Cynllun Gwarantu Cyfweliad – Yn Gadarn o Blaid Pobl Anabl

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu cynllun Cadarn o Blaid Pobl Anabl ac yn croesawu ceisiadau gan bobl ag anableddau. Mae'r cynllun hwn yn sicrhau cyfweliad i bobl sydd ag anableddau os byddant yn bodloni gofynion sylfaenol y swydd. Mae'r ffurflen gais hefyd yn eich galluogi i nodi unrhyw anghenion penodol sydd gennych neu offer penodol y gall fod ei angen arnoch os cewch wahoddiad i gael cyfweliad.

Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Yr Tîm Penodiadau Cyhoeddus

Ffôn: 03000 61 6095; E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a rôl Cadeirydd Cymru, cysylltwch ag Alison Townsend, Ysgrifennydd Bwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr:

Ffôn: 0121 345 1042

E-bost: Alison.Townsend@ccwater.org.uk

Os oes angen mwy o gymorth arnoch wrth ichi wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 61 6095 neu anfonwch e-bost i penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i www.llyw.cymru/penodiadaucyhoeddus.

Penodi Cadeirydd Cymru y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd deiliad y swydd yn arwain y Pwyllgor sy'n gyfrifol am gynrychioli buddiannau defnyddwyr dŵr yng Nghymru, ac fel aelod o Fwrdd cenedlaethol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, bydd yn darparu cyfeiriad strategol a throsolwg o bersbectif Cymru.

Nid oes yn rhaid i ymgeiswyr fod yn arbenigwyr yn y diwydiant dŵr ond dylai fod ganddynt brofiad ar lefel uwch yn y sector preifat, cyhoeddus neu wirfoddol. Dylai ymgeiswyr hefyd ddangos eu bod yn deall y cyd-destun economaidd-gymdeithasol y mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gweithredu ynddo.

Bydd Cadeirydd Cymru yn atebol i Gadeirydd y Cyngor, yn aelod o Fwrdd y Cyngor a bydd yn gyfrifol am ddarparu arweiniad strategol drwy:

- sicrhau bod Bwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried yn llawn y gwahaniaethau rhwng y fframwaith deddfwriaethol, rheoliadol a pholisi yng Nghymru;
- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lywodraeth Cymru am unrhyw newidiadau sy'n debygol o effeithio ar gyfeiriad strategol y Cyngor Defnyddwyr Dŵr neu ar ei allu i gyrraedd ei dargedau, a phennu'r camau angenrheidiol i ymdrin â newidiadau o'r fath;
- hyrwyddo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill;
- meithrin a rheoli'r berthynas â rhanddeiliaid yng Nghymru, gan gynnwys cwmnïau dŵr, i sicrhau manteision amlwg i ddefnyddwyr dŵr;
- cynrychioli barn Pwyllgor Cymru ar Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr;
- cynrychioli barn y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i gwmnïau dŵr, cyrff priodol eraill a'r cyhoedd gan gynnwys y cyfryngau;
- sicrhau bod Pwyllgor Cymru, wrth wneud penderfyniadau, yn ystyried unrhyw bolisiâu a chanllawiau a ddarperir gan Fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr;
- cynnal asesiad blynyddol o berfformiad aelodau Pwyllgor Cymru, gan gynnwys pan ystyrir eu hail-benodi i Bwyllgor Cymru, neu eu penodi i gorff cyhoeddus arall;
- sicrhau safonau uchel o reoleidd-dra a phriodoldeb;

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

- cynrychioli Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru yng nghyfarfodydd Fforwm Dŵr Llywodraeth Cymru;
- sicrhau bod rhaglen ymchwil a gwaith y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ystyried cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys tystiolaeth sy'n deillio o Gymru; a
- chadeirio cyfarfodydd Pwyllgor Cymru yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, ac o leiaf unwaith y flwyddyn yn gyhoeddus.

Mae disgrifiad mwy manwl o rôl Cadeirydd Cymru ar gael ar wefan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn

<https://www.ccwater.org.uk/aboutus/our-people/board/meettheboard/>

Manyleb y Person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf hanfodol ar gyfer penodi:-

Meini Prawf Hanfodol

Bydd angen i chi allu dangos y canlynol:

- y gallu i weithredu fel aelod effeithiol o'r Bwrdd a'r gallu i ddangos eich bod yn gallu rheoli newid sefydliadol;
- ymrwymiad cadarn i gynrychioli buddiannau defnyddwyr ac i sicrhau manteision amlwg drwy ddull sy'n seiliedig ar dystiolaeth;
- dealltwriaeth o'r effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n effeithio ar gwsmeriaid y cyfleustodau preifat a reoleiddir;
- profiad o drafod â rhanddeiliaid a'u rheoli i sicrhau newid a'r gallu i fod yn llysgennad ardderchog i gynrychioli'r sefydliad ar y lefel uchaf;
- sgiliau cyfathrebu a dylanwadu ardderchog, a phrofiad o ddelio â'r cyfryngau yn effeithiol;
- dealltwriaeth glir o faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth ac ymrwymiad iddynt, a'r gallu i herio arferion gwahaniaethol lle bo'n briodol; a
- dealltwriaeth o'r pwysigrwydd o arddel safonau uchel mewn bywyd cyhoeddus.

Meini Prawf Dymunol

- Sgiliau cyfathrebu cadarn, i sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda chwmnïau dŵr, rheoleiddwyr eraill, swyddogion polisi Llywodraeth Cymru, Gweinidogion ac ar adegau, y cyfryngau;
- Diddordeb yn y diwydiant dŵr neu ddealltwriaeth ohono.

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Y Gymraeg

- Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yw'n hanfodol. Fodd bynnag, disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a helpu i wneud penderfyniadau i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad

Bydd y swydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd ond bydd disgwyl i'r Cadeirydd fynd i gyfarfodydd ledled Cymru ac i gyfarfodydd y Bwrdd a fydd yn cael eu cynnal ar draws Cymru a Lloegr.

Ymrwymiad Amser

O leiaf 3 diwrnod y mis. Bydd Bwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fel arfer yn cwrdd wyth gwaith y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd yn ei swyddfa yn Birmingham ac mewn amryfal leoliadau yng Nghymru ac ym mhedwar rhanbarth y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn Lloegr. Mae gan y Bwrdd dri phwyllgor sefydlog hefyd; mae disgwyl i bob aelod o'r Bwrdd wasanaethu ar o leiaf un o'r pwyllgorau hyn.

Hyd y penodiad

Bydd y penodiad yn para am bedair blynedd. Yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Penodi Gweinidogion i Gyrrff Cyhoeddus, caiff Gweinidogion ailbenodi penodai cyhoeddus neu estyn hyd y penodiad. Fodd bynnag, bydd unrhyw ailbenodiadau yn ddarostyngedig i asesiad boddhaol o berfformiad ac yn cael eu gwneud yn ôl disgrisiwn y Gweinidogion.

Caiff y penodai ymddiswyddo ar unrhyw adeg drwy roi tri mis o rybudd yn ysgrifenedig i Weinidog yr Amgylchedd. Caiff Gweinidog yr Amgylchedd ddod â'r penodiad i ben dan rai amodau, a fydd yn cael eu hesbonio wrth yr ymgeisydd llwyddiannus pan gaiff ei benodi.

Mae modd cael copi o'r telerau ac amodau y bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus eu derbyn, gan Lywodraeth Cymru ar gais.

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Tâl cydnabyddiaeth

£36,045 am ymrwymiad o 3 diwrnod yr wythnos. Mae'n debygol yr ystyrir Cadeirydd Cymru yn ddeiliad swydd at ddibenion treth ac Yswiriant Gwladol. O ganlyniad, bydd rhaid talu treth ar y taliad o dan Atodlen E o'r Ddeddf Trethi a bydd yn rhaid talu cyfraniadau Dosbarth 1 Yswiriant Gwladol. Tynnir y symiau hyn drwy system gyflogres y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a thelir y ffi net i ddeiliad y swydd. Bydd treuliau rhesymol yn cael eu talu yn unol â pholisi teithio a chynhaliaeth y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Nid yw'r penodiad hwn yn bensiynadwy.

Pwy sy'n cael gwneud cais?

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Byddwn yn gofyn i'r ymgeiswyr a fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad lenwi holiadur gwrthdaro buddiannau. Mewn egwyddor, ni fydd unrhyw un sy'n gweithio ar hyn o bryd, neu sydd wedi gweithio o fewn y 12 mis diwethaf, i unrhyw un o gwmnïau dŵr Cymru neu Loegr (hy ymgymmerwyr dŵr a charthffosiaeth, cwmnïau sy'n disodli cwmnïau eraill a chyflenwyr dŵr trwyddedig) neu reoleiddiwr dŵr, neu sydd wedi ymwneud â chwmnïau o'r fath, yn gallu gwneud cais.

Os ydych yn aelod presennol o Dŷ'r Cyffredin neu Lywodraeth Cymru neu wedi eich penodi gan Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed neu sefydliadau tebyg a chanddynt fuddiant mewn dŵr, ni chewch eich penodi ar fwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Cysylltwch â publicappointments@llyw.cymru i weld a ydych yn gymwys i wneud cais.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd bod bod yn aelod o'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn swydd sy'n eich anghymhwyso rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015. <http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2015/1536/contents/made>.

Os cewch eich penodi, rhaid ichi werthu unrhyw gyfrannau mewn cwmnïau dŵr neu unrhyw gwmnïau o fewn eu grwpiau perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r cyfyngiad hwn yn gymwys os mai Rheolwr Cronfa yn unig sy'n dewis y cyfrannau.

Gwrthdaro Buddiannau

Bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Cymru y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Rhaid i aelodau arddel y safonau uchaf o ddiueddrwydd, uniondeb cymeriad a gwrthrychedd wrth reoli cronfeydd cyhoeddus a llywodraethu'r Cyngor Defnyddwyr

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Dŵr. Mae modd dod ag unrhyw benodiad i ben yn gynnar heb hysbysiad gan Weinidog yr Amgylchedd os na fydd deiliad y swydd yn perfformio ei ddyletswyddau yn foddhaol.

Rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus arddel y 7 egwyddor bywyd cyhoeddus a chael ei weld yn arddel yr egwyddorion hynny.

<https://www.gov.uk/government/publications/the-7-principles-of-public-life/the-7-principles-of-public-life--2>.

Bydd Cadeirydd Pwyllgor Cymru yn ddarostyngedig i werthusiad blynyddol gan Gadeirydd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Bydd disgwyl ichi arddel safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gadw at y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus, a gallwch weld y ddogfen hon yma:

<http://www.bl.uk/aboutus/Llywodraethu/blboard/Board%20Code%20of%20Practice%202011.pdf>

Rôl a chyfrifoldebau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Cefndir

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gorff statudol a sefydlwyd ar 1 Hydref 2005 dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Dŵr 2003. Mae'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr ac yn gweithio gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, rheoleiddwyr (Ofwat, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Arolygiaeth Dŵr Yfed) a'r diwydiant dŵr. Caiff y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ei gyllido drwy ardoll a ychwanegir at bob bil dŵr yng Nghymru a Lloegr. Caiff yr arian ei drosglwyddo o'r cwmnïau dŵr i Ofwat, y rheoleiddwr economaidd ac yna i Lywodraeth y DU sy'n talu'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr ar ffurf grant.

Strwythur y sefydliad

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cynnwys Cyngor ar gyfer Cymru a Lloegr, sef y Bwrdd sy'n cynnwys Cadeirydd y Cyngor, pedwar cadeirydd pwyllgorau rhanbarthol Lloegr, Cadeirydd y pwyllgor ar gyfer Cymru a thri aelod annibynnol, yn ogystal â Phrif Weithredwr y Cyngor. Mae pob pwyllgor rhanbarthol Cymru a Lloegr yn cael cymorth gan dri i chwe aelod pwyllgor a elwir yn Eiriolwyr Defnyddwyr Lleol.

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr wedi'i leoli yng nghanol dinas Birmingham ac mae ganddo swyddfa yng Nghaerdydd.

Bwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yw corff llywodraethu'r sefydliad ac mae'n gyfrifol am nodi blaenoriaethau polisi ac am hyrwyddo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o staff ac adnoddau eraill, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) a Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arni <http://www.ccwater.org.uk/aboutus/governance/governancedocuments/> NODER: mae'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

Bob blwyddyn mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ymgynghori ar ei Blaenraglen Waith ar gyfer y flwyddyn nesaf ac yn ei chyhoeddi. Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau'r Cyngor o ran cynrychioli defnyddwyr dros y tair blynedd nesaf a chaiff ei hategu gan Gynllun Busnes Gweithredol sy'n nodi sut y bydd y blaenoriaethau hyn yn cael eu cyflawni. Mae modd gweld y ddwy ddogfen hyn yn <https://www.ccwater.org.uk/aboutus/publications/fwp/>

Mae Deddf Dŵr 2003 yn nodi swyddogaethau a dyletswyddau'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr, sef:

1 Fel y cyfeirir at "Regional committee" yn Neddf Diwydiant Dŵr 1991

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

- rhoi sylw i fuddiannau defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys cwsmeriaid penodol sy'n agored i niwed oherwydd efallai bod eu hoed, eu hincwm, eu hanabledd neu lle y maent yn byw yn cyfyngu ar eu gallu i ddefnyddio gwasanaethau, a chwsmeriaid nad ydynt yn gallu newid cyflenwr dan fesurau cystadleuaeth y Ddeddf;
- ymdrin â chwynion cwsmeriaid mewn perthynas â chwmnïau dŵr a charthffosiaeth, ac ymchwilio iddynt;
- adolygu gwybodaeth am faterion cwsmeriaid yn barhaus yn ogystal â cheisio barn defnyddwyr ar faterion o'r fath;
- cyflwyno cynigion, darparu cyngor a gwybodaeth, a chynrychioli barn defnyddwyr i awdurdodau cyhoeddus, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac eraill y gall eu gweithgareddau effeithio ar fuddiannau cwsmeriaid;
- darparu cyngor a gwybodaeth i gwsmeriaid;
- cyhoeddi gwybodaeth ystadegol am gwynion i gwmnïau dŵr ac amdanynt; ac
- ymchwilio i unrhyw faterion o ddiddordeb i gwsmeriaid nad ydynt o reidrwydd yn destun cwyn.

Bwrdd y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am nodi blaenoriaethau polisi y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ac am hyrwyddo'r defnydd effeithlon ac effeithiol o'i staff ac adnoddau eraill, gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cyflawni nodau ac amcanion yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru, fel y nodwyd yn y Ddogfen Fframwaith y cytunwyd arni rhwng y tri pharti - <https://www.ccwater.org.uk/wp-content/uploads/2015/09/CCW-Signed-Framework-document-May-2015.pdf>.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd, pedwar Cadeirydd Rhanbarthol Lloegr, Cadeirydd Cymru, tri Aelod Annibynnol a'r Prif Weithredwr.

Pwyllgor Cymru

Mae Pwyllgor Cymru yn cynnwys Cadeirydd Cymru (sydd hefyd yn aelod o'r Cyngor) ac aelodau eraill a benodwyd gan y Cyngor dan Ddeddf Dŵr 2003.

Mae Cylch Gorchwyl y Pwyllgor i Gymru wedi'i gynnwys yng Nghod Llywodraethu'r Cyngor (<https://www.ccwater.org.uk/wp-content/uploads/2014/11/Code-of-Governance.pdf>).

Mae swyddogaethau Pwyllgor Cymru fel a ganlyn:-

- rhoi cyngor a gwybodaeth i Gyngor Defnyddwyr Cymru ar faterion dŵr cwsmeriaid Cymru;

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

- cynnal asesiadau gwasanaeth cwsmeriaid sy'n seiliedig ar risg o'r systemau cwynion cwsmeriaid yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru;
- gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol eraill yng Nghymru i ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig ac effeithlon sydd werth yr arian i ddefnyddwyr;
- cynnal cyfarfodydd cyhoeddus i drafod yn uniongyrchol â chwsmeriaid; a
- chyflawni unrhyw swyddogaethau eraill sy'n cael eu dirprwyo iddo gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr.

Gwaith y Cyngor Defnyddwyr Dŵr i ddefnyddwyr

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cefnogi defnyddwyr dŵr domestig neu fusnes, ac yn gweithio i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn gorff sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n defnyddio ymchwil defnyddwyr ac adborth a geir yn uniongyrchol gan ddefnyddwyr domestig a busnes i lywio pob agwedd ar ei waith. Mae'r diwydiant dŵr, rheoleiddwyr a sefydliadau cysylltiedig, felly, yn cydnabod y Cyngor Defnyddwyr Dŵr fel eiriolwr gwybodus, dylanwadol ac effeithiol dros ddefnyddwyr. Mae'n ymdrin â chwynion defnyddwyr domestig a busnes pan nad yw'r cwmni dŵr neu'r manwerthwr wedi llwyddo i ddatrys materion sy'n ymwneud â'u biliau neu eu taliadau, neu eu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth.

Adolygiad wedi'i Deilwra

Cynhelir Adolygiad wedi'i Deilwra o bob Corff Cyhoeddus Anadrannol ym mhob Senedd.

Cewch hyd i Ganllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Adolygiadau wedi'u Teilwra yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/633573/Tailored_Review_Guidance_on_public_bodies_V1.2_July_2017.pdf.

Disgwylir cynnal adolygiad o'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn 2019.

Rhagor o wybodaeth

Cewch hyd i ragor o wybodaeth am rôl y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, ei flaenoriaethau a'i gyflawniadau ar ei wefan yn: www.ccwater.org.uk.

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Gofalwch felly eich bod yn darparu tystiolaeth sy'n dangos sut yr ydych yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

Bydd y panel dethol dan gadeiryddiaeth Elizabeth Watkins fel Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel a bydd hefyd yn cynnwys Huw Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr Dŵr a Llifogydd Llywodraeth Cymru ac Alan Lovell (Cadeirydd y Cyngor).

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y caiff eich cais ei roi ar "restr hir" cyn iddo gael ei roi i'r panel i lunio rhestr fer. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Mehefin 2019 pwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad ym mis Gorffennaf 2019.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel o'r farn eu bod wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Er hynny, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn bodloni'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd, byddwch hefyd yn cael eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac os nad ydy dyddiad y cyfweliad wedi'i ddarparu eisoes yn y pecyn gwybodaeth, byddwn yn ceisio rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na fyddwch yn gallu dod i'r cyfweliad a drefnir, byddwn yn gwneud ein gorau i aildrefnu. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd y cyfyngiadau amser yn yr amserlen ar gyfer penodi, a bydd yn dibynnu hefyd ar argaeledd y panel dewis.

Byddwch yn cael e-bost a fydd yn cael ei anfon drwy'r system Penodi i roi gwybod ichi a fyddwch wedi cael eich gwahodd i gyfweliad ai peidio. Cynhelir y cyfweliadau yng Nghaerdydd.

Os byddwch yn cael eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi am eich sgiliau a'ch profiad, gan ofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn bodloni gofynion y swydd.

Bydd y panel yn creu rhestr fer o ymgeiswyr i'w hargymell i'r Gweinidog. Y Gweinidog fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gallai'r Gweinidog gyfarfod â'r ymgeiswyr hynny cyn penderfynu. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd cyfweliad yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch llythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Cymru y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y cyfweiliad, bydd Llywodraeth Cymru yn eich hysbysu. Rydym yn gwerthfawrogi ei bod yn cymryd llawer o amser ac ymdrech i wneud cais am swydd a bod adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd y llythyr yn cynnwys manylion ynghylch pwy y dylech gysylltu â nhw i gael adborth am eich cyfweiliad a'ch cais.

Ymholiadau

Os oes gennych gwestiynau ynglŷn â'ch cais, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 61 6095 neu PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os ydych am gwyno am y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus ar 03000 61 6095 neu drwy anfon e-bost i PenodiadauCyhoeddus@llyw.cymru.